



# Gwers 6



Cyfres Stori Duw

## Cyfamod Duw â Abraham

Genesis 12:1 – 9 . . . . .

### Nod:

I ddysgu am gyfamod Duw â Abraham.

### Adnodau:

Genesis 12:1 – 9

### Gweithgaredd:

Gwrando ar gyfarwyddiadau (peidiwch â dweud enw'r gêm wrth y bobl ifanc). Ffotocopiwch Atodiad 4 a rhoi un i bob aelod o'r grŵp, gwnewch yn siŵr fod gan bawb feiro. Esboniwch fod ganddynt uchafswm o 5 munud i orffen y cyfarwyddiadau ar y daflen. Gwnewch yn siŵr fod gwobr i'r rhai sy'n gorffen y dasg yn llwyddiannus. Ar ddiwedd y dasg trafodwch bwysigrwydd gwrando ar a dilyn cyfarwyddiadau. Heddiw, fe welwn beth mae Abraham yn ei wneud pan mae Duw'n rhoi cyfarwyddiadau iddo nad ydynt yn gwneud llawer o synnwyr ar y pryd.

### Darllen yr hanes:

Fe fydd angen bwced, neu fin bychan gwag arnoch a phêl. Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm, esboniwch wrthynt y bydd ganddynt 5 munud i ddarllen yr adnodau, ac wedyn fe fydd cwis ar yr hanes hwn, a rhai cwestiynau o'r gwersi blaenorol, gwnewch yn siŵr fod y Beiblau yn cael eu rhoi i un ochr wedi'r 5 munud fel bod neb yn twyllo.

Am bob ateb cywir fe fydd aelod o'r tîm yn cael cyfle i daflu'r bel er mwyn ceisio ei gael i mewn i'r bwced/bin. Rhowch 5 pwynt i'r tîm am ateb cywir, 5 am daflu'r bel a'i bod

yn cyffwrdd y bin/bwced a 10 os yw'r bel yn glanio ynddo.

### Cwestiynau:

1. Pwy wnaeth siarad gydag Abram? Duw / yr Arglwydd
2. Beth oedd enw nai Abram? Lot
3. Beth oedd enwau'r ddau berson y creodd Duw yng ngardd Eden? Adda ac Efa
4. Enwch un o blant Adda ac Efa? Cain/ Abel/Seth
5. Beth oedd enw gwraig Abram? Sarai
6. I ba wlad yr aeth Abram iddi? Canaan
7. Beth oedd enw tad Sem, Cham a Jaffeth? Noa
8. Ym mha ddinas y ceisiwyd adeiladu twr i'r nefoedd? Babel
9. Beth adeiladodd Abram i'r Arglwydd? Allor
10. Ar ddiwedd yr hanes heddiw, tuag at ble oedd Abram yn teithio? Y Negef
11. Sawl rhan sydd i'r Beibl? Enwch hwy. 2, yr Hen Destament a'r Testament Newydd
12. Sawl Llyfr sydd yn y Beibl? 66

Gallwch ychwanegu cwestiynau os yw'r bobl ifanc yn mwynhau a'r cwis yn mynd yn dda.

## **Trafod yr Hanes:**

Gofynnwch i'r bobl ifanc a oes yna unrhyw un yn y byd y byddent yn fodlon eu dilyn i bellafoedd y ddaear, hyd yn oed pe bai hynny'n golygu gadael teulu a ffrindiau. Os oes yna, gofynnwch pwy a pham?

Yn yr hanes heddiw mae Abram yn clywed llais Duw ac yn gadael popeth er mwyn gwneud yr hyn y mae Duw'n ei ofyn ganddo.

Darllenwch yr hanes eto fel grŵp gan ofyn i unigolion ddarllen adnod yr un.

## **Cyflwyno'r wers:**

Atgoffwch y bobl ifanc o'r man y gorffennwyd yr hanes y tro diwethaf, gyda Duw yn cosbi'r byd yng nghyfnod Noa, ond bod pechod dal yn amlwg i'w weld ym mhob man. Ac fe fu'n rhaid i Dduw ymyrryd eto yn hanes tŵr Babel. Heddiw, gwelwn nad yw Duw yn troi ei gefn ar y ddynoliaeth er eu bod yn pechu ac yn troi eu cefnau arno Ef.

Mae'n dechrau perthynas gyda dyn o'r enw Abram.

Mae Duw yn gwneud cyfamod ag Abram, addewid, ac mae'n dod mewn tair rhan;

1. Mae Abram am gael llawer o ddisgynyddion ac am ddod yn genedl fawr.
2. Fe fydd yn mwynhau perthynas arbennig gyda Duw, un sy'n llawn bendith.
3. Fe fydd pobl yr holl fyd yn cael eu bendithio trwy Abram.

Wrth i ni fynd drwy stori fawr y Beibl, mae hon yn rhan bwysig iawn; o'r pwynt yma ymlaen, disgynyddion Abram (neu Abraham fel y newidiwyd ei enw iddo'n ddiweddarach) fydd gyda'r prif rannau yn y stori, ar ôl Duw.

## **Gweithgaredd:**

Gadewch i'r bobl ifanc agor eu Beiblau ar y dudalen mynegai, a pharhewch gyda'r cwis. Gan ofyn cwestiynau o'r mynegai, e.e. beth yw llyfr cyntaf y Testament Newydd?; beth yw llyfr olaf yr Hen Destament?; Sawl epistol yr ysgrifennodd Pedr?

## **Amser Addoli:**

Atgoffwch y dosbarth o'r gweithgaredd gwrando ar gyfarwyddiadau. Trafodwch ffydd Abram yn gwrando ar gyfarwyddiadau Duw. Os yw'r bobl ifanc yn gyffyrddus yn gweddio'n gyhoeddus, ewch o amgylch mewn cylch gyda phawb yn gweddio gweddi syml, megis 'Dduw Dad, helpa ni i fod yn unigolion sy'n gwrando ar dy gyfarwyddiadau fel Abram, helpa ni i dy garu di fel ag yr oedd ef yn dy garu. Amen'